**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Mawrth 2021**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Dim. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Emrys Wynne – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Gwyneth Kensler – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | POLISI GWIRFODDOLI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cefnogi'r polisi, y prosesau a'r dogfennau cysylltiedig newydd ar gyfer rheoli gweithgareddau gwirfoddoli yn y Cyngor, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r diwygiad arfaethedig i'r Polisi Amser i Ffwrdd o'r Gwaith ar gyfer gweithwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol (Atodiad 7 i'r adroddiad), ac yn*<br><br>*(c) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | CANOLFAN ASESU GOFAL PRESWYL PLANT IS-RANBARTHOL – DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo llofnodi Gweithred Ariannol y Bartneriaeth er mwyn gallu dyfarnu'r contract i godi Canolfan Asesu Gofal Preswyl Plant, ac yn*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Mawrth 2021**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL, CHWARTER 3, 2020-2021 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 3 2020/21 ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **10** | FFRAMWAITH DYLUNIO GRAFFEG AC ARGRAFFU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Fframwaith Dylunio Graffeg ac Argraffu, fel y manylir arno yn yr adroddiad.* |
| **11** | CAFFAEL GOFAL A CHYMORTH MEWN CYNLLUN TAI GOFAL YCHWANEGOL I BOBL HŶN A PHOBL GYDAG ANABLEDDAU CYMHLETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo penodi'r darparwr gwasanaeth a enwir ac a argymhellir yn yr adroddiad i ddarparu gofal a chymorth i unigolion gydag anableddau cymhleth sy'n byw ym mloc C, ac yn*<br><br>*(b) cymeradwyo penodi'r darparwr gwasanaeth a enwir ac a argymhellir yn yr adroddiad i ddarparu gofal a chymorth i bobl hŷn sy'n byw ym mlociau A a B Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych.* |